

JONES, GWILYM THOMAS (1908 - 1956), cyfreithiwr a gweinyddwr

Enw: Gwilym Thomas Jones
Dyddiad geni: 1908
Dyddiad marw: 1956
Priod: Marion Jones (née Hughes)
Plentyn: Geraint Jones
Plentyn: Goronwy Morys Gwilym Jones
Plentyn: Iwan Pennant Gwilym Jones
Rhiant: William Thomas Jones
Rhiant: Margery Lilian Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr a gweinyddwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Emyr Wyn Jones

Ganwyd Gwilym T. Jones ar 27 Mehefin 1908 yn 21 Stryd Penlan, Pwllheli, Sir Gaernarfon, yr hynaf o bump o blant William Thomas Jones (1877-1960), peintiwr ac addurnwr, a'i wraig Margery Lilian (1880-1953). Addolai'r teulu yng Nghapel Salem (M.C.), Pwllheli, lle y bu Gwilym yn nes ymlaen yn flaenor. Cafodd ei addysg yn Ysgol Eifennol Troedyrallt ac yn Ysgol Sir Pwllheli, ac wedyn yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, lle graddiodd gyda gradd M.A. yn y Gyfraith.

Yn 1936, tra'n gweithio fel cyfreithiwr ym Mhwlheli, cafodd ei apwyntio fel cyfieithydd swyddogol y llys yng Nghaernarfon yn achos 'Tri Penberth' - **Saunders Lewis**, **Lewis Valentine**, a **D. J. Williams** - ac wedyn yn llys yr Old Bailey yn Llundain ar ôl trosglwyddo'r achos yno. Yn 1938, cafodd y swydd o Gyfreithiwr Cynorthwyol Cyngor Sir Caernarfon. Yn 1942 fe'i penodwyd yn Ddirprwy Glarc Cyngor Sir Caernarfon, ac yn 1945 yn Glarc y Cyngor.

Tra'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, cyfarfu â Marion Hughes o Lanelli, a oedd yn astudio yn Adran y Gymraeg. Priodasant yn 1940, gan ymgartrefu yn 'Penlan', 2 Llys Meirion, Caernarfon. Ganwyd iddynt dri mab: Geraint (g. 1942), a fu farw o gancr y gwaed yn ddwy flwydd oed, Goronwy Morys Gwilym Jones (g. 1948), ac Iwan Pennant Gwilym Jones (g. 1952).

Roedd Gwilym T. yn wladgarwr brwdfrydig, ac arloesodd o ran polisi iaith Cyngor Sir Caernarfon, gan gynnwys arwyddbyst Cymraeg drwy gydol y sir. Roedd yn Is-gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, 1954-55, a'r adeg honno fe'i hetholwyd yn aelod o Orsedd y Beirdd. Ef oedd Llywydd y Dydd ar ddiwrnod y Coroni yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1955. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn hanes, ac roedd yn un o brif sefydlwyr Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon yn 1939. Yn 1956, fe'i hetholwyd yn Gymrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethau.

Roedd Gwilym T. yn gyfaill i'r Prifardd Cynan (**Albert Edwards Jones**). Cyflwynodd Cynan ddwy gerdd iddo, 'Llanfihangel Ballechaeth' a 'Capel Nanhoron'. Gwilym T. oedd y prif symudwr yn y gwaith o godi elusen i atgyweirio ac adfer Capel Newydd, Nanhoron, un o gapeli mwyaf hynafol y mudiad anghydfurfiol ym Mhen Llŷn. Ail-agorwyd Capel Nanhoron yn swyddogol ar ôl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau, ar 26 Gorffennaf 1956. Ond tristwch yr achlysur oedd nad oedd Gwilym T. ei hun yno, gan ei fod wedi marw bythefnos ynghynt. Ei weddwr, Mrs Marion Jones, a agorodd yn capel yn swyddogol. Dadorchuddiwyd plac coffa am Gwilym T. ar yr un adeg ag agoriad swyddogol y capel.

Roedd Gwilym T. Jones yn 48 mlwydd oed, yn llwyddiannus ac adnabyddus yn ei swydd, a phawb yn ei barchu, yn briod hapus â dau fab ifanc, yn weithgar yn ei gapel ac yn ei gymuned. Ond, yn ddisymwth, ar 28 Mehefin 1956, y diwrnod ar ôl ei benblwydd yn 48 mlwydd oed, fe gwmpodd yn ddiymwybod yn ei gartref, o ganlyniad i waedlif ar yr ymennydd. Bu'n gorwedd yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon yn anymwybodol am ddeng niwrnod a bu farw ar 9 Gorffennaf 1956. Fe'i claddwyd ar 12 Gorffennaf ym Mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

Awdur

Emyr Wyn Jones

Ffynonellau

Gwybodaeth deuluol

Y *Cymro*, 12 Gorffennaf 1956

Yr *Herald Cymraeg a'r Genedl*, 16 Gorffennaf 1956

Caernarvon and Denbigh Herald and North Wales Observer, 13 Gorffennaf 1956

Ifor Rees (gol.), *Bro a bywyd: Syr Cynan Evans-Jones, 1895-1970* (Caerdydd 1982), t. 19

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q111589348

Dyddiad cyhoeddi: 2022-04-12

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government